

# Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod Hybrid 25 Tachwedd 2024 am 7:00 yr hwyr.

ENW	PRESENNOL	YMDDIHEURO
John Brinley Jones	✓	
Alan Harper-Smith	✓	
Andrew Parry (Cadeirydd)	✓	
Greta Hughes	✓	
Gwenllian Davenport Hughes	✓	
Hywel James Sinclair Evans	✓	
Ian Goronwy Williams (Is-gadeirydd)	✓	
Keith Williams	✓	
Kevin Wheatley		✓
Thomas Victor Jones	✓	
William Roger Jones	✓	
<b>HEFYD</b>		
Caroline Jones (Clerc)	✓	
Ann Llwyd (Cyfieithydd) (ar Zoom)	✓	
* wedi cyrraedd neu adael y cyfarfod lle cofnodwyd.		

## 1. Presennol ac ymddiheuriadau

Rhestrwyd yr aelodau'n bresennol, yn ogystal â'r ymddiheuriadau, yn y tabl uchod.

## 2. Datgan Buddiant Ariannol neu Bersonol

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad buddiant ariannol na phersonol.

## 3. Cofnodion - er mwyn cywirdeb yn unig. Pwyllgor 28 Hydref 2024

Derbyniwyd y cofnodion yn unfrydol fel rhai cywir.

Cynigiwyd gan: John Brinley Jones

Eiliwyd gan: Thomas Victor Jones

## 4. Unrhyw Fater Brys

**4.1.** Cymeradwyo Adroddiad Comisiwn Cymunedau Cymraeg - [i'w ddarllen yma.](#)

Cymeradwywyd adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg.

Cynigiwyd gan: Ian Williams

Eiliwyd gan: Y Cadeirydd

**4.2.** Ambiwylans Awyr Cymru: Trafodwyd dyfodol yr ambiwlans awyr yn yr ardal, cytunwyd i gyfrannu £100 a gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr i Ambiwylans Awyr Cymru yn dangos pryder am y dyfodol pe byddai'r lleoliad yn symud o Gaernarfon.

**Gweithredu: Y Clerc i drefnu taliad £100 i Ambiwylans Awyr Cymru ac anfon llythyr yn dangos pryder am newidiadau arfaethedig i leoliad yr hofrennydd.**

**4.3.** Llwybr cyhoeddus newydd, i warchod dyfodol y llwybr arfordir ger traeth Llanbedrog. Cytunwyd gyda'r lleoliad newydd fel yn y cynllun Cyngor Gwynedd.

**Gweithredu: Y Clerc i ymateb gyda sylw Cyngor Cymuned Llanbedrog ac i anfon e-bost ynglŷn â chyflwr gwael y stepiau ger pwynt A ar y map.**

Cofnodion Cyfarfod Hybrid 25 Tachwedd 2024 am 7:00 yr hwyr.

- 4.4. Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Dur a Môr, Parc Margam a'r Fro 2025: Cytunodd Cyngor Cymuned Llanbedrog i wneud rhodd £100 i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

**Gweithredu: Y Clerc i drefnu talu'r rhodd £100 i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2025.**

- 4.5. Mynydd Tir y Cwmwd - carreg goffa. Derbyniwyd gwybodaeth am garreg goffa wedi ei leoli ar y mynydd.

**Gweithredu: Y Clerc i ysgrifennu at y Llanbedrog Headland Company a Chyfoeth Naturiol Cymru i dynnu sylw at y garreg sydd wedi cael ei osod mewn ardal SSSI.**

- 4.6. **Llifogydd A499 - mater brys ychwanegol i'r agenda.** Codwyd y mater gan yr Is-gadeirydd. Yn ystod y llifogydd diweddar bu teithio i Lanbedrog yn rhwystredig iawn, sef yr holl ffordd o gwmpas Tudweiliog gan fod ffordd Rhydyclafdy hefyd wedi cau ar y pryd; dangoswyd pryder pe byddai argyfwng yn yr ardal yn y dyfodol.

**Gweithredu: Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Adran Briffyrdd, Cyngor Gwynedd i dynnu sylw at y mater a nodi pryder y gymuned pe byddai argyfwng, gyda chopi i'r Cyngorydd Angela Russell, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Aelodau Seneddol Liz Saville Roberts a Mabon ap Gwynfor.**

## 5. Llwybrau

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn cadarnhad gan Osian Parry y byddai'r holl lwybrau wedi cael eu torri unwaith eto cyn diwedd y flwyddyn. Gofynnwyd iddo hefyd gymryd sylw wrth gario gwellt o'r fynwent. Nodwyd hefyd bod y llwybr ger Tyn y Pwll wedi tyfu a bod yr afon fach yng ngwaelod allt Glyn y Weddw wedi ei gau gyda dail ac ati.

**Gweithredu: Y Clerc i gysylltu gyda Dei Russell i dorri'r llwybr rhwng Tremeifion a Thyn Pwll ac i ofyn i Gyfoeth Naturiol Cymru roi sylw i'r afon ar waelod allt Glyn y Weddw.**

## 6. Y Fynwent, y Fynwent Newydd

Adroddodd y Clerc bod un bedd wedi ei hagor ers y cyfarfod diwethaf.

Ynglŷn â'r wal a oedd wedi disgyn, adroddodd y Clerc bod Zurich, y cwmni yswiriant, wedi rhoi gwybod nad oedd y cais am y difrod wedi ei dderbyn er iddo gael ei wneud drwy'r wefan a thystiolaeth o hynny wedi ei dderbyn. Serch hynny, roedd y cais yn nwylo Zurich erbyn hyn. Byddai cais ar wahân yn cael ei wneud gan berchennog y tir gerllaw, a disgwyli'r canlyniadau hyn maes o law.

Nid oedd unrhyw ddatblygiad gyda'r Fynwent Newydd, a nodwyd bod y cais cynllunio yn agored o hyd. Gofynnwyd i'r Clerc i gael cyngor cyfreithiol neu gan asiant tir ynghylch y posibilrwydd o dynnu'r amod i ffwrdd y tir, a hefyd chael cyngor ar sut i symud ymlaen gyda'r datblygiad os yn bosib.

**Gweithredu: Y Clerc i chwilio am gyfreithiwr neu asiant tir priodol er mwyn cael cyngor ar ddatblygu safle'r Fynwent Newydd.**

## 7. Cae Chwarae

Cofnodion Cyfarfod Hybrid 25 Tachwedd 2024 am 7:00 yr hwyr.

Rhannwyd adroddiad gan y pwyllgor Cae Chwarae'r diwrnod hwnnw am y digwyddiad lle dorwyd gwifren drydan gan gontractwyr ffensio yn y cae. Adroddodd y Cadeirydd bod y cae chwarae wedi cau ar hyn o bryd oherwydd pryderon bod perygl yn y cae. Ymddiheurodd James Evans nad oedd wedi paratoi adroddiadau ariannol y cae chwarae y tro hwn oherwydd y digwyddiad yma. Adroddodd y Cadeirydd bod llythyr wedi ei anfon allan gan Ysgol Gynradd Llanbedrog i rieni yn hysbysu bod y cae chwarae wedi cloi am y tro.

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i'r Clerc:

- **Gofyn i'r Pwyllgor Cae Chwarae am ffeil yn cynnwys manylion llawn o'r cytundeb gwaith cae chwarae gan gynnwys yr holl dystiolaeth ynghlwm â'r gwaith a gytunwyd.**
- **Cysylltu efo Scottish Power i ofyn am gadarnhad bod y cae chwarae yn ddiogel i'w ddefnyddio i'r pwrpas cae chwarae ac i ofyn pe byddai posib gweld sampl o beth sydd yn y ddaear er gwybodaeth.**
- **Creu ffeil yn cynnwys holl hanes gwifren trydan yn y cae chwarae hyd yma gydag unrhyw fanylion perthnasol arall a fyddai ei hangen i gontractwyr y dyfodol.**

Trafodwyd y syniad o bosib prynu offer beics ar gyfer defnydd yn y cae chwarae ond ni chytunwyd ar y rhain oherwydd risg ar hyn o bryd.

## 8. Neuadd y Pentref

Adroddodd Ian Williams nad oedd pwyllgor wedi ei gynnal ers y cyfarfod diwethaf. Diolchwyd i Iwan Hughes am gynnal yr arddangosfa hen luniau diweddar. Adroddwyd bod casgliad ariannol wedi ei wneud yn ystod yr arddangosfa a fyddai yn cael ei dderbyn maes o law. Diolchwyd i Ian Williams am ei rodd tuag at y lluniaeth.

Tynnwyd sylw at y man parcio o falen y neuadd pentref. Roedd rhaid sicrhau bod y man yn cael ei gau i ffwrdd ac yn wag am un diwrnod y flwyddyn.

**Gweithredu: Gofynnwyd i aelodau pwyllgor y neuadd pentref i chwilio am y pyst a rhaffau i gau'r man parcio ac i drefnu gwneud hynny diwedd y flwyddyn.**

Adroddwyd bod y goeden Nadolig wedi cyrraedd, ond ni chafwyd ei osod oherwydd storm Bert y dydd Sadwrn cynt. Roedd digwyddiad canu carolau wedi ei drefnu ar gyfer 2 Rhagfyr, felly roedd rhaid i'r goeden fod yn ei le erbyn hynny.

**Gweithredu: Yr aelodau drefnu gosod y goeden ar fore Sadwrn y 30 Tachwedd, a'r Clerc i ofyn ar Facebook i aelodau'r gymuned helpu.**

## 9. Taliadau

9.1. Cytunwyd y taliadau isod:

- a) Ann Llwyd, cyfieithydd: £70.00
- b) Cyflog y Clerc: £443.67 (mymryn llai nag ar yr agenda)
- c) PAYE a YG: £1111.00 (bach mwy nag ar yr agenda)
- d) DW Jones: £120.00

Cofnodion Cyfarfod Hybrid 25 Tachwedd 2024 am 7:00 yr hwyr.

- e) Osian Parry: £2,280.00
- f) Rhys Jones: £2,040.00
- g) Cyngor Gwynedd (gwastraff masnachol): £110.00
- h) Zoom: £155.88
- i) Viking: £47.02
- j) Roger Fisher: £234.00
- k) PPM, nwyddau o CL Jones i Roger Fisher: £54.91
- l) Amazon – ad-daliad i Alaw Ceris: £21.48

Derbyniwyd yn unfrydol.

**9.2.** Datganiadau banc: Rhannwyd y datganiadau gyda'r papurau o flaen llaw, y balansau oedd:

- a) Natwest Business Reserve – balans 28/10/2024 yn £1,196.77
- b) Natwest Current – balans 28/10/2024 yn £47,188.88
- c) Natwest Liquidity Manager – balans 28/09/2024 yn £70,691.14

**9.3.** Derbyniadau

- a) Geraint Parry £160

Heb dderbyn

- b) G. D. Roberts £160 anfonwyd 21/10/24.

Derbyniwyd manylion y derbyniadau er gwybodaeth.

## **10. Ceisiadau Cynllunio:**

[C24/0843/38/AC](#) - Penrhos Polish Village, Lôn Llanbedrog, Pwllheli, Gwynedd, LL53 7HN.

Yn dilyn eglurhad am y cais C24/0843/38/AC, Penrhos Polish Village gan swyddog cynllunio, Cyngor Gwynedd, penderfynwyd bod Cyngor Cymuned Llanbedrog yn cytuno mewn egwyddor ond bod gwneud penderfyniad cadarn yn anodd oherwydd bod yr eirfa yn gymhleth a thechnegol, a bod dim polisi gosod cyfredol ar gyfer y safle ar gael gan Gyngor Gwynedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 20.55.

Cyfarfod nesaf dydd Llun, Ionawr 27, 2025.

Cofnodion Cyfarfod Hybrid 25 Tachwedd 2024 am 7:00 yr hwyr.

**COFNODION DRAFFT WEDI EU CADARNHAU GAN Y CADEIRYDD**

**ARWYDDWYD** *D.A. Parry* **DYDDIAD: 3 Rhagfyr 2024**

**COFNODION WEDI EU CADARNHAU**

**ARWYDDWYD**

**DYDDIAD:**

DRAFFT